OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2012 No. 1493

## Rheoliadau Iechyd Planhigion (Ffioedd) (Cymru) 2012

**Tatws hadyd: ffioedd**

**3.**—(1) Mae'r ffioedd a bennir yn Atodlen 4 yn daladwy mewn perthynas â'r swyddogaethau a bennir yng ngholofn 1 o'r Atodlen honno, sy'n ymwneud â chais am—

(a) ardystiad o datws hadyd yn unol â rheoliad 9 o'r Rheoliadau Tatws Hadyd;

(b) awdurdodiad i farchnata tatws hadyd yn unol â rheoliad 8 o'r Rheoliadau hynny.

(2) Mae'r ffi sy'n daladwy mewn perthynas â swyddogaeth yn ddarostyngedig i unrhyw leiafswm ffi a bennir yng ngholofn 3 o Atodlen 4 mewn perthynas â'r swyddogaeth honno.

(3) Rhaid talu'r ffi mewn perthynas â swyddogaeth a bennir yn Atodlen 4 i Weinidogion Cymru.

(4) Yn y rheoliad hwn, ystyr "y Rheoliadau Tatws Hadyd" ("*the Seed Potatoes Regulations*") yw Rheoliadau Tatws Hadyd (Cymru) 2006(**1**).

(**1**) O.S. 2006/2929 (Cy.264).